

Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 10ed Hydref, 2016 am 7.00 o'r gloch

Presennol: H.E. Thompson, Gareth Evans, Elwyn Evans, Robert Jones, a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Gadeirydd Wendy Whitby, (galw ffwrdd) Is Gadeirydd Eleri Puw, (Salwch plant), Clare Crowley, (gwaith) Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton (sâl)

Datgan Diddordeb: dim

Croeshawyd pawb gan yr Cyng Gareth Evans a ddaeth i'r Gadair.

Derbyniwyd cofnodion Medi 2016 a'u llofnodi gan y Cadeirydd, hefyd cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus.

1. Cae Chwarae: Dim yw adrodd, nid oedd Les Hunt yn dod i wneud y gwaith, felly pasiwyd i holi i eraill am wneud y gwaith. Nodwyd bod ieir yn cerdded o gwmpas y lle gan berson anhysbys.
2. Mynwent: Dim yw adrodd.
3. Llwybrau: Llwybyr Gamallt - Cyngor Gwynedd yn gaddo archwilio
4. Ciosg: Minffordd: nodwyd bod tacluso wedi bod o amgylch.
5. Archwiliad: Nodwyd gan BDO bod yr Archwiliad ar gyfer 31/03/16 wedi ei gwblhau, bydd hysbysiad diwedd yr archwiliad ar y bwrdd hysbys o 11/10/16 hyd at 26/10/16 gyda rhif ffôn y Clerc, ac amseroedd 10 - 2 o'r gloch i gysylltu a hi. Yr oedd materion angen eu trafod - (1) Y Broses Gyllidebu - Cyngor yn dangos potesial o ddiffyg rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus ag yr oedd yn agored i'r risg o orwario. Dylai'r Cyngor ddangos ei bod yn monitorio y gyllideb yn chwarteol a'i gofnodi. (2) Dim llythyr penodi'r archwilydd mewnol - dylai llythyr ddangos y disgwyliadau'r archwilydd mewnol a'r Cyngor. (3) Mân Faterion - Nid yw'r ffurflen flynyddol yn adio i fyny o £1. Trafodwyd y pwyniau a phenderfynwyd i dderbyn cefnogaeth gan Un Llais Cymru, sut i wneud y cyfan yn gywain. Diolch i BDO am ein harwain. Cyflwynwyd y ffurflen flynyddol i'r Cynghorwyr a'r uchod wedi ei trafod. Bu i'r ffurflen flynyddol gael ei chymeradwyo a'i derbyn gan y Cyngor.
6. Toiledau Cyhoeddus: Cyflwynwyd cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus a bod ni fel Cyngor yn talu cyfraniad o £2,000.00 at y costau £3,263.78 i gadw toiledau cyhoeddus Abergynolwyn ar agor o 1af Ebrill hyd at diwedd Hydref 2017. Nododd y Clerc ei bod wedi cynnig gwasanaeth dwy ferch i lanhau yn wirfodol - nid oedd hyn yn gostwng y costau i'r Cyngor.
7. Llygod Mawr: Nodwyd nad oedd cymaint I weld o amgylch ar hyn o bryd.
8. Diolch: Derbyniwyd gan Dail Dysynni.
9. Binau Halen: Nid oedd ateb wedi ei dderbyn ynglyn a'n derbyniad.
10. Comisiwn Ffiniau i Gymru - www.bcomm-wales.gov.uk - nodwyd gan Gynghorwr bod hyn wedi ei ohirio.
11. Adroddod y Cadeirydd ei fod wedi mynd i wasanaeth RAFA - Battle of Britain - trist oedd cyfnodi cyn lleied a fynychai.
12. Codwyd y pwyntiau canlynol - bod arwyddion eisiau sylw- torri tyfiant yn ol. Chwyn yn Stryd Llanegryn ddim yn cael y sylw cywir. Beth yw cytundebau Cyngor Gwynedd ynglyn a cig i'r ysgolion - nodwyd a braw bod y cig yn dod o dros dwr - twrci o'r Eidal, porc o Sbaen, Cig eidion o Uruguay, Cig oen o Seland Newydd. - hyn i gyd drwy law Harlech Frozen Foods - bydd ymholiadau yn cael eu gwneud mor fuan a phosib.
13. Nodwyd ein Diolch i'r Cyng. Emrys Thompson ac Elwyn Evans am y gwaith trylwr a waned i baratoi llythyrau i bob tŷ annedd cyn y cyfarfod cyhoeddus.

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:

Derbynwyd arian gan Y Cyng Evans allan o'r bocs pres - £16.87

Ysgrifennwyd ail siec i ad dalu costau y blwch arian i'r Cyngor - siec rhif 2 am £218.32

Cyfarfod Nesaf Nos Fawrth 15fed Tachwedd 2016 - Cyffredin am 7 o'r gloch